# SL(5)630 – Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020 ("y Rheoliadau") yn cael eu gwneud o dan y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru gan adrannau 9(1)(a), 140(7) ac (8) a 142(5) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 ac adrannau 87 a 196(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau i ddwy set o Reoliadau i lacio a diwygio gofynion a osodir oddi tanynt:

1. Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1313 (Cy. 95)) ("Rheoliadau 2005")

Mae Rheoliadau 2005 yn nodi'r broses ar gyfer asesu addasrwydd pobl i fabwysiadu plentyn ac addasrwydd plant i gael eu mabwysiadu.

Mae rheoliadau 3 i 8 o'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau i Reoliadau 2005; dyma'r newidiadau a gaiff eu gwneud:

- Diwygiadau i'r broses gymeradwyo ar gyfer darpar fabwysiadwyr er mwyn galluogi cam 1 a cham 2 o'r broses asesu i redeg ar yr un pryd. Mae hyn yn golygu y gellir casglu gwybodaeth y mae'n rhaid ei chasglu ar hyn o bryd yn ystod cam 1 o'r broses gymeradwyo yn ystod cam 2.
- Llacio'r amserlen ar gyfer cymryd camau penodol. Mae amserlenni ar gyfer cam un a cham dau o'r broses o 2 fis (cam 1) a 4 mis (cam 2) yn parhau i fod ar waith ond dim ond pan fo'n rhesymol ymarferol y mae'n ofynnol i asiantaethau fodloni'r amserlenni.
- Mae'r terfyn o 6 mis ar yr amser y gall darpar fabwysiadwr ei adael rhwng cam 1 a cham 2 yn parhau, ond dim ond pan fo'n rhesymol ymarferol y mae'n ofynnol i fabwysiadwyr gadw at y terfyn amser.

2. Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 (O.S. 2015/1818 (W. 261)) ("Rheoliadau 2015")

Mae Rheoliadau 2015 yn gwneud darpariaeth ynghylch rhwymedigaethau awdurdod lleol mewn perthynas â chynllunio, lleoli ac adolygu'r gofal a'r cymorth a ddarperir i blentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod hwnnw yn unol â Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae rheoliad 8 o'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau 2015 i ymestyn y cyfnod (o 16 i 24 wythnos) pan gaiff person sy'n perthyn i blentyn neu sy'n gysylltiedig â phlentyn fel arall gael cymeradwyaeth dros dro i weithredu fel rhiant maeth awdurdod lleol ar gyfer y plentyn hwnnw.

Yn ddarostyngedig i reoliadau 9 a 10, mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau yn peidio â bod yn effeithiol ar 31 Mawrth 2021.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Mae'r pedwar pwynt canlynol wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mewn perthynas â hawliau plant, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn:

> *"Ni nodwyd unrhyw wrthdaro â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar blant a phobl ifanc; mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau'n effeithio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar wasanaethau i oedolion. Cynhyrchwyd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) ar yr adeg y cymeradwywyd y hawddfraint dros dro i Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 ar ddechrau'r pandemig."*

Ymddengys nad yw'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant y cyfeirir ato uchod ar gael yn gyhoeddus ac er y nodir y sylwadau uchod gan Lywodraeth Cymru, nid yw'n bosibl canfod a sefydlodd yr asesiad yn llawn nad oes ymyrraeth â hawliau plant a phobl ifanc o dan y Confensiwn. Byddai'n ddymunol gweld yr asesiad yn cael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo modd.

Ymhellach, i fodloni'r rhwymedigaethau a osodwyd gan adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 ac oherwydd bod y broses ddiwygiedig wedi bod yn rhedeg yn anffurfiol ers yr hawddfraint dros dro, byddai'n briodol cynnal a chyhoeddi asesiad pellach yn benodol i'r Rheoliadau hyn i sefydlu na effeithir ar yr hawliau perthnasol.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae Adran 5 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi manylion yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y Rheoliadau hyn dros bedair wythnos rhwng 27 Gorffennaf a 24 Awst 2020. Fodd bynnag,

nodir nad yw canlyniadau'r ymgynghoriad wedi'u cyhoeddi eto ac, o'r herwydd, nid yw'n eglur sut yr ystyriwyd y canlyniadau hynny, os oeddent ar gael, wrth ddatblygu'r polisi sy'n sail i'r Rheoliadau hyn. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad ar y pwynt hwn ac awgrymir y dylid cyhoeddi'r canlyniadau cyn gynted ag y bo modd.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r diwygiad i Reoliadau 2015 yn estyn uchafswm y cyfnod, o 16 i 24 o wythnosau, pan ganiateir i blentyn gael ei roi gyda pherthynas neu berson cysylltiedig i gael gofal maeth dan gymeradwyaeth dros dro. Nid yw'n glir a oedd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant y cyfeirir ato ym mhwynt 1 uchod yn ystyried y risg uwch i blentyn o fod mewn cyfnod estynedig o ofal maeth mewn sefyllfa o'r fath. Nodir bod yr ymgynghoriad (gweler pwynt 2 uchod) yn cyfeirio at y terfyn amser uwch ond nad yw fel arall yn mynd i'r afael â mater y risg. Gan nad yw canlyniadau'r ymgynghoriad ar gael ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl asesu a ystyriwyd unrhyw ymatebion perthnasol wrth ddatblygu'r Rheoliadau. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi'r mesurau diogelwch a gynhwysir yn rheoliad 26(2) o Reoliadau 2015. Dylid cyhoeddi canlyniadau'r ymgynghoriad cyn gynted ag y bo modd.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, nodir yr esboniad a ganlyn gan Lywodraeth Cymru yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Mae'r angen am y Rheoliadau wedi'i nodi fel rhan o'r cynllunio wrth gefn ar gyfer materion a allai godi o ledaeniad COVID-19. Oherwydd yr amser cyfyngedig sydd ar gael i baratoi Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020 a bod y newidiadau a wnaed yn rhai dros dro (llai na 6 mis), ni luniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol.*
>
> *Er mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am y system gofal cymdeithasol i blant, ni ragwelir y bydd y newidiadau arfaethedig yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol helaeth na newidiadau sylweddol i arferion gwaith.*
>
> *Mae anghenion busnesau yn y sector gofal cymdeithasol ar hyn o bryd wedi'u hystyried wrth baratoi'r Rheoliadau; bydd y diwygiadau'n lleihau neu'n dileu beichiau ar asiantaethau a'u bwriad yw cefnogi gwasanaethau gofal cymdeithasol plant i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol yn fwy hyblyg yn ystod y pandemig."*

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r pwyntiau rhinweddau 1, 2 a 3 uchod.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 19 Hydref 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.